Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru

# Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2018-19









# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Ein sefydliad** | **5** |
| **Ein harolygiadau** | **13** |
| **Cyflawniadau sefydliadol** | **28** |
| **Edrych i'r dyfodol** | **35** |
| **Atodiad** | **38** |

## Sut i roi adborth am ofal cymdeithasol a gofal plant

Ein ffonio: 0300 7900 126

Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru

Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

arolygiaethgofal.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38208
ISBN digidol 978-1-83933-182-4

# Rhagair

Croeso i'm hadroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19. Eleni, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth effeithiol a chyson o ansawdd uchel. Mae hyn wedi aros yn flaenoriaeth wrth i ni gynnal 2,499 o arolygiadau a rheoleiddio 5,946 o wasanaethau.

Fel sefydliad, rydym bob amser yn cadw effaith ein gwaith mewn cof, gan sicrhau ein bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni gofal o'r safon uchaf ac, ar yr un pryd, yn diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Eleni, rydym wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn sefydlu dull gweithredu cenedlaethol yn ein gwaith. Mae hyn wedi cynnwys cydweithredu â sefydliadau eraill i gynnal adolygiadau ac arolygiadau thematig, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drylwyr a chynhwysfawr o'r gofal a ddarperir yng Nghymru.

Un o'n cyflawniadau mwyaf heriol eleni fu rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016) ar waith. Ni ellir gorbwysleisio'r cymhlethdod sylweddol a wynebwyd gennym wrth arolygu a rheoleiddio o dan ddau fframwaith statudol gwahanol, a hynny tra oeddem yn prosesu 10 gwaith mwy o gofrestriadau darparwyr nag arfer. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyno model rheoleiddio cwbl newydd; ffyrdd newydd o weithio; prosesau a chanllawiau newydd a gwasanaeth ar-lein newydd er mwyn sicrhau bod modd i amcanion y ddeddfwriaeth gael eu cyflawni. Mae'r gwaith hwn yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i sicrhau bod uchelgeisiau'r ddeddf a'i phwyslais ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl wrth wraidd y gofal cymdeithasol a ddarperir.

**Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:**

- **Gwasanaethau oedolion:** Gan gydweithredu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, cychwynnwyd rhaglen o arolygiadau thematig, yn canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth ac atal anghenion rhag dwysáu ymhlith pobl 65 oed a throsodd. Cofrestrwyd 1,034 o wasanaethau oedolion o dan Ddeddf 2016 a dechreuwyd arolygu'r gwasanaethau hyn o dan y gofynion newydd.
- **Sicrhau gwelliant a gorfodi:** Rhoesom ddull newydd o sicrhau gwelliant a gorfodi ar waith, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n lleihau'r risg i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n dwyn darparwyr i gyfrif am unrhyw fethiannau gwasanaeth.
- **Gwasanaethau plant:** Cynhaliwyd adolygiad thematig o wasanaethau plant awdurdodau lleol, yn canolbwyntio ar blant a oedd yn dod i mewn i'r system ofal. Cafodd y canfyddiadau eu coladu er mwyn llunio adroddiad trosolwg cenedlaethol. Cynhaliwyd hefyd adolygiad cenedlaethol o'r canlyniadau i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal. Cofrestrwyd 120 o wasanaethau plant o dan Ddeddf 2016 a dechreuwyd arolygu'r gwasanaethau hyn o dan y gofynion newydd.
- **Arolygiadau ar y cyd ag Estyn**: Cychwynnwyd rhaglen o arolygiadau ar y cyd ag Estyn, gan gyflawni arolygiadau integredig o leoliadau nas cynhelir am y tro cyntaf. Bydd AGC yn cynnal arolygiadau ar y cyd o oddeutu 90 o wasanaethau y flwyddyn dros y chwech i saith mlynedd nesaf.
- **Cyflwyno graddau a gyhoeddir**: Lansiwyd rhaglen o ddyfarnu graddau i bob gwasanaeth gofal plant a chwarae, gan ddechrau gyda'n harolygiadau ar y cyd ag Estyn ym mis Ionawr. Yn dilyn hyn, dyfarnwyd gradd i bob gwasanaeth a arolygwyd gan AGC ar ôl 1 Ebrill. Yn eu hadroddiadau arolygu, caiff gwasanaethau raddau a gyhoeddir, sef Rhagorol; Da; Digonol: neu Wael, a hynny ar gyfer y pedwar maes: Lles; Gofal a Datblygiad; Yr Amgylchedd; Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

- **Recriwtio:** Yn 2019, lansiwyd ymgyrch recriwtio arolygwyr allanol, a chynhaliwyd diwrnodau agored yn ein swyddfeydd ledled Cymru. Llwyddodd yr ymgyrch i ddenu mwy na 300 o geisiadau, gan ein galluogi i recriwtio amrywiaeth ehangach fyth o arolygwyr medrus.
- **Lansio AGC Ar-Lein:** Mae ein gwasanaeth cofrestru ar-lein newydd yn galluogi darparwyr i wneud cais, amrywio eu hamodau cofrestru a chyflwyno hysbysiadau drwy eu cyfrifon ar-lein, gan ddarparu gwasanaeth llawer mwy hygyrch a syml.

Rwy'n hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni, yn ystod blwyddyn a fu'n ymestynnol ac yn heriol i bawb ohonom. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ein staff a chymorth a chydweithrediad y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, y darparwyr a'n partneriaid yn y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant: hoffwn ddiolch o waelod calon am hynny.

Mae'n fraint cael bod yn Brif Arolygydd ar sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau cynifer o bobl ym mhob cwr o Gymru, ac rwy'n edrych ymlaen at yr hyn a fydd heb os yn flwyddyn heriol arall, ond yn un a fydd yn rhoi boddhad mawr.





**Gillian Baranski**
Prif Arolygydd, AGC

# Ein sefydliad



“Gwnaethom gyflwyno nifer o ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhoi newidiadau deddfwriaethol diweddar ar waith ac ateb heriau yn y dyfodol.

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym wedi parhau i adolygu a myfyrio ar y ffordd rydym yn gweithio er mwyn cyrraedd y safonau uchaf posibl a helpu i wella canlyniadau i’r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.”

*Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC*

# Ein sefydliad

## Pwy ydym ni

**Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sef rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.**

**Y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu:**

- Gwasanaethau cartref gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd.

Cyfeiriwn at y rhain fel "gwasanaethau rheoleiddiedig".

**Rydym hefyd yn arolygu:**

- Ysgolion preswyl
- Ysgolion arbennig preswyl
- Colegau addysg bellach, sy'n lletya myfyrwyr o dan 18 oed
- Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru, ac rydym yn cynnal adolygiadau cenedlaethol er mwyn monitro pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio.

## Ein pwerau cyfreithiol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r rhain i gyd yn rhoi'r pŵer i ni gofrestru ac arolygu'r gwasanaethau a restrir uchod.

## Ble i gael rhagor o wybodaeth

- Rydym yn ysgrifennu adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau a'n hadolygiadau.
- Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am nifer y gwasanaethau a'r lleoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Mae ein cyfeiriadur o wasanaethau a rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.arolygiaethgofal.cymru

Gallwch hefyd ein dilyn ar:
Twitter @arolygu_gofal
Facebook @arolygiaethgofalcymru


# Ymgysylltu â'r cyhoedd

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gofalwyr, a'r cyhoedd i gyflawni hyn. Drwy gydweithio, credwn y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

**Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol:**

- gwrando ar farn pobl a'u profiadau o ofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, ac ymateb iddynt;
- darparu gwybodaeth glir o ansawdd uchel er mwyn helpu pobl i wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus;
- cael adborth ar ansawdd ein gwaith, a'i wella;
- grymuso pobl i ddeall ansawdd y gofal y dylent ei ddisgwyl; a
- codi ymwybyddiaeth o'r hyn a wnawn.

## Sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl



Gwnaethom fynychu **34** o ddigwyddiadau, cynadleddau a gweithdai.

**+107%**

Cyfanswm ein presenoldeb ar draws yr holl gyfryngau oedd **533** o grybwylliadau I gymharu â **257** yn ystod y cyfnod blaenorol.

**+81%**

Gwnaethom siarad â **1,079** o bobl yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 2017... i gymharu â **592** y flwyddyn flaenorol.

**-14%**

Cafwyd **449,847** o sesiynau ar ein gwefan i gymharu â **524,785** yn ystod y cyfnod blaenorol. Mae'n debygol bod hyn wedi digwydd gan fyddwn wedi derbyn cynnydd mawr mewn traffig oherwydd Deddf 2016 a rhywfaint o gofrestriad darparwr.

Cyrhaeddodd ein cylchlythyr misol dwyieithog wedi cynyddu o **4,774** i **7,378**.

**+55%**

Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i weithgarwch cyfathrebu parhaus i annog pobl i danysgrifio.

Cafodd ein cyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg gyfanswm o **540,100** o argraîadau rhyngddynt... i gymharu â **501,800** yn ystod y cyfnod blaenorol.

**+8%**

Fe wnaethom lansio Facebook yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd

**Caiff ein gwaith ei lywio a'i hysbysu gan farn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu.**

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gwneud y canlynol:

- siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fel rhan o bob arolygiad a siarad â theuluoedd, os ydynt yn ymweld â'r gwasanaeth pan fyddwn yno;
- ceisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd pan fyddwn yn arolygu gwasanaeth neu awdurdod lleol gan ddefnyddio holiadur a'r cyfryngau cymdeithasol;
- cyfarfod â grwpiau o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a gofalwyr fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu o ran awdurdodau lleol;
- llunio adroddiadau arolygu sy'n rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd am ansawdd y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant;
- defnyddio ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth a cheisio adborth gan y cyhoedd; a
- gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr i gymryd rhan ym mhrosiectau newid AGC.

# Y cyhoedd

**Rydym yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n rôl ac yn gwybod sut i rannu eu barn am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru â ni, drwy wneud y canlynol:**

- darparu gwybodaeth am AGC a gwasanaethau cofrestredig drwy ein gwefan;
- mynychu digwyddiadau cyhoeddus e.e. Sioe Frenhinol Cymru er mwyn siarad â phobl am ein gwaith;
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd a darparwyr;
- cynnal ymgyrchoedd â thema ar y cyfryngau cymdeithasol; a
- cyhoeddi adroddiad blynyddol y Prif Arolygwr, sy'n trafod ein gwaith.

Rydym yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio nifer o lwyfannau gan gynnwys Twitter, Facebook, cylchlythyrau digidol a'n gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

# Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

**Mae ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn rhan greiddiol o'n gwaith ymgysylltu. Caiff ei gadeirio gan yr Athro Judith Hall ac mae'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr yn ogystal â chomisiynwyr a darparwyr. Mae'n rhoi 'llais' i farn teuluoedd a pherthnasau, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau ond hefyd barn pawb sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol.**

Mae ei aelodau yn rhoi barn i ni ar ba mor dda y mae'r gwasanaethau'n gweithio, ym mha ffyrdd y mae angen iddynt wella a sut y gallwn wella ein gwaith arolygu. Mae'r Bwrdd yn ein helpu i wneud y canlynol:

- deall y pethau sy'n bwysig i ddinasyddion;
- pennu ein rhaglen waith bob blwyddyn; a
- dod o hyd i atebion a gwella gwasanaethau ac AGC.



"I mi, un o'r uchafbwyntiau penodol yw'r eitem reolaidd Lleisiau o'r Sector, pan fyddwn yn treulio amser yn gwrando ar aelodau yn sôn am eu profiadau."

*Yr Athro Judith Hall, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlethol*

“Rydym yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn yn un o’n tair swyddfa ac mae hyn yn cynnig cyfle gwerthfawr i ni ddod ynghyd i drafod y gwaith o wella gwasanaethau cymdeithasol a gofal yng Nghymru. Roedd 2018-19 yn flwyddyn heriol a chyffrous arall i AGC. Mae’r Bwrdd wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i AGC am y ffordd y mae ei gwaith yn effeithio ar y sector gofal ehangach. Mae’r cynnydd yn nifer yr aelodau ers 2017-18 wedi arwain at gynyddu’r cyfoeth o brofiad y mae’r aelodau’n ei gynnig. Mae’r aelodau hefyd yn cael cyfle i rwydweithio gyda chydweithwyr.

Caiff y Bwrdd gyfleoedd i ystyried datblygiadau fel y ffordd y mae AGC yn rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith, a chaiff ddiweddariadau ar y gwaith hwn yn ystod pob cyfarfod. I mi, un o’r uchafbwyntiau penodol yw’r eitem reolaidd Lleisiau o’r Sector, pan fyddwn yn treulio amser yn gwrando ar aelodau yn sôn am eu profiadau. Yn ystod cyfarfodydd eleni, rwy’n parhau i glywed adborth cadarnhaol am strwythur newydd AGC; mae’r aelodau’n teimlo y gallant gysylltu ag un tîm swyddogaethol os oes ganddynt wybodaeth i’w rhannu neu gwestiynau i’w gofyn.”

*Yr Athro Judith Hall, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol*

## Prif gyflawniadau ac uchafbwyntiau

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cafwyd adborth rheolaidd gan y Bwrdd wrth i ni roi Deddf 2016 ar waith, o helpu i lywio canllawiau statudol i roi adborth ar y broses ailgofrestru.

### Gwasanaethau ar-lein

Bu cyngor ac adborth y Bwrdd yn amhrisiadwy wrth ddatblygu a gwella arlwy ar-lein AGC.

### Lleisiau o’r Sector

Rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf gan ofalwyr, defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr o bob rhan o’r sector gofal ym mhob cyfarfod – gan sicrhau bod pobl wrth wraidd gwaith AGC.

## Straeon cadarnhaol am ofal


Gwnaethom ddychwelyd i'r Sioe Frenhinol Cymru yn 2018, ynghyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn, fel rhan o Arolygu Cymru: rhaglen o gydweithio a chydweithredu. Siaradodd staff AGC â 1,079 o bobl, gan godi ymwybyddiaeth o bwy ydym ni a'r hyn a wnawn.


Gwnaethom ofyn i aelodau o'r cyhoedd gwblhau cardiau post i "ddiolch" i aelodau o staff neu wasanaethau gofal am ddarparu gofal da i berthynas neu anwylyd.

Roedd yn bleser gennym groesawu'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, Huw Irranca-Davies AC, ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, y Fonesig Shan Morgan, a achubodd ar y cyfle i ysgrifennu eu cardiau diolch personol eu hunain.

"Mae gofal gwych yn cael ei roi ym mhob cwr o Gymru, ac mae'n rhaid i ni ddathlu'r unigolion brwdfrydig, ymroddedig hynny am y gwaith eithriadol y maent yn ei wneud."

*Gillian Baranski, Prif Arolygydd, AGC*







# Ein harolygiadau



"Mae'n fraint enfawr ymgymryd â rôl Dirprwy Brif Arolygydd AGC, gan y bydd 2018-19 yn adeg gyffrous a heriol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu yn effeithio ar fywydau'r rhan fwyaf o deuluoedd, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol, er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl ledled Cymru."

*Vicky Poole, Dirprwy Brif Arolygydd, AGC*

## Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2018-19



# Tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant

**Mae'r tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant yn rheoleiddio gwasanaethau sy'n darparu gofal a chymorth i oedolion, plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

## Trosolwg

Mae'r tîm yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau yn darparu gofal diogel o ansawdd da i bobl agored i niwed. Mae hefyd yn ceisio cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru.

## Newid y ffordd rydym yn rheoleiddio gwasanaethau oedolion a phlant

Yn ystod 2018-19, rydym wedi parhau i weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Nod Deddf 2016 yw darparu gofal cymdeithasol gwell i bobl Cymru drwy roi gofynion ar ddarparwyr, yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'r hyn sy'n bwysig i bobl. Mae'n golygu bod darparwyr gofal yn fwy atebol a chyfrifol am ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

Bu hon yn rhaglen newid sylweddol, gyda phob gwasanaeth i oedolion a phlant rheoleiddiedig yn ailgofrestru o dan y ddeddfwriaeth a phwerau newydd yn cael eu cyflwyno.

Mae hyn wedi cynnwys:

- **Ailgofrestru:** Gwnaethom ailgofrestru 1,154 o wasanaethau preswyl i oedolion a phlant a gwasanaethau cymorth cartref o dan Ddeddf 2016.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â'n rhanddeiliaid a'n darparwyr drwy gynnal digwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2018. Gwnaethom hefyd gynnal cymorthfeydd unigol lle cafodd darparwyr gyfarfodydd un i un ag arolygydd cofrestru er mwyn trafod eu hamgylchiadau penodol. Drwy'r digwyddiadau hyn, bu modd i ni gyfarfod â mwy na 600 o ddarparwyr, gan roi gwybodaeth iddynt am y Ddeddf, yr hyn y mae'n ei olygu iddynt, ein dull o gofrestru ac arolygu a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn paratoi.
- **Gwasanaethau ar-lein:** Gwnaethom lansio ein cyfeiriadur ar-lein newydd ym mis Mai 2018 lle gall y cyhoedd gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau rheoleiddiedig. Rydym hefyd wedi ymestyn y gwasanaeth ar-lein er mwyn galluogi gwasanaethau a gofrestrir o dan Ddeddf 2016 i gyflwyno hysbysiadau ac amrywiadau i ni drwy eu cyfrif ar-lein.
- **Canllawiau i ddarparwyr:** Mae Deddf 2016 yn rhoi ansawdd gwasanaeth a gwella wrth wraidd y broses reoleiddio. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth baratoi adroddiad a elwir yn adroddiad yr adolygiad o ansawdd y gofal. Gwnaethom gyhoeddi canllawiau i ddarparwyr ar gynnal adolygiad o ansawdd y gofal effeithiol er mwyn cefnogi gwelliannau a sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd uchel.

## Ein dull gweithredu

Rydym yn arolygu pob gwasanaeth yn rheolaidd – gall amlder yr arolygiadau amrywio yn ôl y math o wasanaeth neu os oes pryderon am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Yn ystod ein harolygiadau, rydym bob amser yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal â'r rheolwyr a'r staff sy'n gweithio yno. Gellir gwneud hyn ar sail un i un neu mewn grwpiau. Rydym hefyd yn defnyddio holiaduron er mwyn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am y gwasanaeth. Dyma enghreifftiau o'r hyn yr ydym yn ei ofyn:

- a all pobl ddewis beth y maent am ei wneud a phryd;
- sut beth yw byw yno; a
- sut beth yw'r gofal.

Rydym yn arsylwi ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Yn ystod ein hymweliadau arolygu, rydym yn ystyried y canlynol:

- Sut y mae'r staff yn cefnogi pobl, a ydynt yn gwybod beth y mae'r bobl ei eisiau a'i angen?
- A oes gan y staff y sgiliau a'r hyfforddiant i gynorthwyo'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- A oes cyfleusterau ac offer ar gael i helpu pobl yn eu bywydau bob dydd?
- A yw'r darparwr yn cael gafael ar wasanaethau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n llawn, fel gwasanaethau iechyd arbenigol, eiriolwyr a mynediad at y gymuned?

Rydym yn ystyried y ffordd y mae darparwyr yn goruchwylio ac yn rhedeg y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod systemau ar waith er mwyn adolygu ansawdd y gwasanaeth a gwneud gwelliannau. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaeth ofyn i bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau am adborth ar ansawdd y gofal a'r cymorth a gânt.

Rydym hefyd yn gwrando ar farn y cyhoedd, comisiynwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.

## Nifer gwasanaethau a reoleiddir gan AGC

Ffynhonnell: system rheoli data AGC

**Rheoleiddiwyd 5,946 o wasanaethau yn darparu 112,075 o leoedd**

**1,873**
**o wasanaethau oedolion a phlant**
**(28,645 o leoedd)**

**1,080**
o gartrefi gofal i oedolion
(26,035 o leoedd)

**178**
o gartrefi plant
(774 o leoedd)

**5**
o gartrefi gofal i oedolion a phlant
(31 o leoedd)

**509**
o asiantaethau gofal yn y cartref

**4**
o golegau addysg bellach

**1**
gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
(35 o leoedd)

**9**
o ysgolion arbennig preswyl
197 o leoedd)

**8**
cynllun lleoliadau oedolion

**23**
o asiantaethau mabwysiadu

**11**
o ysgolion preswyl
(1,573 o leoedd)

**45**
o asiantaethau maethu

**4,073**
**o wasanaethau gofal plant a chwarae**
**(83,430 o leoedd)**

**603**
o wasanaethau gofal dydd sesiynol
(13,611 o leoedd)

**878**
o wasanaethau gofal dydd llawn
(34,593 o leoedd)

**26**
o crèches
(636 o leoedd)

**390**
o wasanaethau gofal y tu allan i'r ysgol
(15,366 o leoedd)

**2,131**
o warchodwyr plant
(16,113 o leoedd)

**45**
o wasanaethau darparu chwarae mynediad agored
(3,111 o leoedd)

## Themâu ein harolygiadau

Mae ein hadroddiadau yn canolbwyntio ar bedair thema, sef Llesiant, Gofal a Chymorth, Arwain a Rheoli a'r Amgylchedd. Mae pob adran yn nodi pa mor dda y mae'r elfen hon o'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i gyflawni'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni.

Lle bo gwasanaeth yn methu â bodloni gofynion cyfreithiol ac yn methu â chefnogi'r bobl, byddwn yn cymryd camau gorfodi. Byddwn yn rhoi hysbysiad i ddarparwr y gwasanaeth sy'n nodi'r rheoliad, ym mha ffordd y mae'n methu a'r hyn y mae angen iddo ei wneud er mwyn unioni hyn. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn ein hadroddiadau.

Er mwyn sicrhau bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, byddwn yn arolygu unwaith eto, ac os na wnaed unrhyw welliannau, gallwn gymryd camau pellach.

"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r arolygydd am fynd ati mewn ffordd gydwybodol, ddiwyd a chynhwysfawr i gynnal yr arolygiad a llunio ei hadroddiad. Yn ôl yr arfer, cafodd popeth ei gwblhau mewn modd proffesiynol a hygyrch, gyda dealltwriaeth wirioneddol o rôl cartref gofal arbenigol sy'n darparu gofal nyrsio dementia."

**Detholiad o ffurflen ymateb i arolwg AGC, gwasanaeth cartref gofal i oedolion, Gorllewin Cymru.**

## Gweithio gydag eraill

Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, arolygiaethau eraill a'r heddlu er mwyn cefnogi proses reoleiddio effeithiol. Er enghraifft, eleni, rydym wedi cydweithio'n agos ag Estyn wrth arolygu cartrefi a gwasanaethau plant sydd hefyd yn darparu addysg. Mae hyn wedi arwain at ystyried y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc mewn ffordd fwy cyflawn, ac mae wedi bod yn gyfle i ddefnyddio dull cydgysylltiedig er mwyn canolbwyntio ar ddarparwr y gwasanaeth lle bo angen gwneud gwelliannau.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yr heddlu ac Estyn er mwyn ceisio gwybodaeth ar gyfer ein hadolygiad thematig o Gartrefi Plant (a fydd yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2019).

## Effaith gadarnhaol y broses arolygu

“Aeth arolygwyr i ymweld â gwasanaeth yn dilyn pryderon, a gwnaethant gyhoeddi hysbysiadau yn nodi lle nad oedd y darparwr yn bodloni gofynion cyfreithiol. Roedd yn methu â sicrhau llesiant y preswylwyr, methu â chefnogi pobl i fwyta ac yn methu â’u diogelu.

Cynhaliwyd ail arolygiad ac nid oedd y camau gweithredu a gymerwyd yn ein bodloni bod y bobl yn cael y gofal a’r cymorth cywir. Roedd y gwasanaeth yn parhau i fethu â bodloni gofynion cyfreithiol. Gwnaethom gyfarfod â darparwr y gwasanaeth i drafod hyn.

Gwnaethom ddilyn hyn ag arolygiad arall. Gwelsom fod y cartref wedi gwneud gwaith anhygoel. Roedd fel ymweld â lle cwbl wahanol. Roeddent wedi rhoi profiad bwyta cadarnhaol ar waith, gan greu ardaloedd tawel i’r rheiny nad oeddent yn hoff o fwrlwm amser cinio. Roedd gweithgareddau yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y staff yn helpu’r bobl i fwyta ac yfed mewn ffordd gadarnhaol, gyda’r staff yn egluro iddynt beth oedd yn digwydd ac yn cynnig llawer o ddewis iddynt.

Roedd yn amlwg bod y cartref wedi gweithio’n galed i roi hyn ar waith. Wrth gwrs, mae cynaliadwyedd yn bwysig, ond cawsom adborth cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol yn dweud cymaint yr oedd y cartref wedi gwella i’r bobl.”



# Tîm arolygu awdurdodau lleol

**Rydym yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau ym maes gwasanaethau cymdeithasol.**

## Ein dull gweithredu

Mae'r tîm wedi adolygu ei fframwaith arolygu er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau. Rydym yn ceisio cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant. Mae'r fframwaith arolygu diwygiedig wedi'i ategu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru) 2014, ac yn gyson â'i phedair egwyddor, sef Llesiant, Pobl, Partneriaethau ac Atal.

### Partneriaethau, integreiddio a chydweithredu

Cyhoeddwyd ein Cod Ymarfer ar gyfer ein gwaith gydag awdurdodau lleol yn 2019, yn unol â gofynion Deddf 2014. Mae'n disgrifio'r ffordd y byddwn yn mynd ati i adolygu'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gyflawnir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn nodi'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith arolygu a gwerthuso perfformiad.

### Gweithio gydag eraill

Gyda'r ymgyrch i gydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, bydd achlysuron rheolaidd yn codi pan fydd arolygiadau ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu cynnal ar y cyd ag arolygiaethau eraill, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â chyfrifoldebau llesiant ehangach awdurdodau lleol a'u partneriaid. Dros y 12 mis diwethaf, mae tîm yr awdurdod lleol wedi gweithio gydag arolygiaethau eraill Cymru a'r DU i gynllunio ac arolygu gwasanaethau integredig ar y cyd.

## Mae arolygu yn ysgogi gwelliant

"Pan gyfarfu AGC â grŵp o blant sy'n derbyn gofal ym mis Hydref 2018, dywedodd y plant wrthym nad oedd eu gweithwyr cymdeithasol yn gwrando arnynt bob amser a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried eu barn. Dywedodd rhai o'r plant nad oeddent wedi cael cynnig eiriolwyr.

Rhoddodd yr awdurdod lleol gynllun gweithredu ar waith a phan wnaethom ddychwelyd ym mis Chwefror 2019, a gwelsom fod nifer yr atgyfeiriadau at y darparwr eiriolaeth wedi cynyddu. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw y tro hwnnw fod cael eiriolwr wedi bod yn fuddiol iawn o ran eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau. Cadarnhaodd y plant eu bod wedi gallu cael cymorth eiriolaeth ar yr amser cywir iddyn nhw. Roeddem yn gwybod bod rheolwyr yn codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ac yn monitro p'un a oedd eiriolaeth yn cael ei chynnig yn rhagweithiol fel rhan o'u prosesau sicrhau ansawdd."

*Arolygydd Awdurdod Lleol, AGC*

**Trosolwg o'r gwaith o Arolygu Awdurdodau Lleol 2018-19**

- Arolygiad o Cafcass Cymru.
- Pum arolygiad o wasanaethau plant yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.
- Dau ailarolygiad o wasanaethau plant.
- Arolygiad ar y cyd o Wasanaeth Troseddwyr Ifanc Bae'r Gorllewin gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
- Tri arolygiad ar y cyd â Gofal Iechyd Arolygiaeth Cymru (AGIC) o wasanaethau oedolion s'yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl 65 oed a throsodd.
- Chwe arolygiad o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol gydag AGIC.
- Cyfrannwyd at adolygiad AGIC o wasanaethau camddefnyddio sylweddau.

## Gweithgarwch arolygu AGC yn fwy manwl yn 2018-19

Ffynhonnell: system rheoli data AGC

### Cofrestru

Gwnaethom gofrestru **1,456** o wasanaethau a chanslo **354** o wasanaethau.

### Gweinyddu

Gwnaethom ddelio â **2,898** o newidiadau i gofrestriadau a ffyrdd o weithio gwasanaethau rhwng 2018-19...

### Arolygu

Roedd hyn yn cynnwys **5** o arolygiadau ar benwythnosau.

Gwnaethom gynnal **2,499** o arolygiadau mewn gwasanaethau oedolion, gofal plant a phlant.

... a chawsom **29,427** o hysbysiadau...

### Gwella gwasanaethau

Gwelsom nad oedd **230** o wasanaethau yn bodloni'r gofynion rheoleiddio.

### Camau gweithredu

Gwnaethom ymateb i **32** o gwynion o dan Bolisi Cwynion Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom ymateb i **22** o Geisiadau am Wybodaeth (Deddf Diogelu Data/Rhyddid Gwybodaeth).

# Tîm arolygu gofal plant a chwarae

## Trosolwg

Mae'r tîm arolygu gofal plant a chwarae yn sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel ac yn darparu gofal o ansawdd da sy'n cefnogi datblygiad emosiynol, meddyliol a chymdeithasol plant.

## Ein dull gweithredu

Rydym yn gwneud hyn drwy reoleiddio ac arolygu gwasanaethau, gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, gyda Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer i gofrestru ac arolygu darparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae yng Nghymru.

Rydym yn arolygu gwasanaethau gofal dydd llawn o leiaf unwaith bob dwy flynedd a gwasanaethau eraill (gan gynnwys gwarchodwyr plant) o leiaf unwaith bob tair blynedd. Gallwn arolygu'n amlach na hynny os caiff pryderon ynglŷn â gwasanaeth eu codi gyda ni, neu os oes angen i ni wneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd mewn arolygiad blaenorol.

Ynghyd â'i phartneriaid, mae gan AGC rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i gyflawni dyhead Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'r plant. Er bod pob plentyn yn unigryw ac y bydd gan bob gwasanaeth ei gymeriad unigol ei hun, dylai pob gwasanaeth ymdrechu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r plant y maent yn gofalu amdanynt. Nid ydym yn oedi cyn herio gwasanaethau sy'n methu a byddwn yn cymryd camau gorfodi lle y bo angen er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.

Mae ein hadroddiadau yn rhoi barn glir am ansawdd y gwasanaeth, wedi'i mynegi mewn iaith glir ac wedi'i chefnogi gan raddau. Mae hyn yn helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Bydd hefyd yn galluogi darparwyr i wneud cymariaethau a dysgu am nodweddion y darparwyr hynny sy'n cyflawni graddau da neu ragorol.





# Gweithio gydag eraill

Ym mis Ionawr 2019, dechreuodd ein rhaglen o arolygiadau ar y cyd ag Estyn. Gyda'n gilydd, rydym yn arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nas cynhelir, sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser. Yn ystod yr arolygiadau ar y cyd, rydym yn arolygu gofal yr holl blant hyd at 12 oed ac addysg o blant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir. Byddwn yn cynnal tua 90 o arolygiadau ar y cyd bob blwyddyn.

Yr arolygiadau ar y cyd hyn yw un o'r enghreifftiau cyntaf yng Nghymru lle mae dwy arolygiaeth wedi dod at ei gilydd i gyflwyno rhaglen arolygu integredig. Ceir un tîm arolygu a all gael ei arwain naill ai gan AGC neu Estyn, ac sy'n ystyried chwe thema arolygu yn hytrach na'r pedair thema a arolygir gan AGC fel arfer. Yn dilyn yr arolygiad, llunnir un adroddiad arolygu, yn nodi graddau ar gyfer pob un o'r chwe thema.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan y sector ar y cyfan. Mae darparwyr wedi dweud wrthym eu bod wedi cael budd o'r canlynol:

- llai o weithgarwch arolygu o safbwynt y darparwyr;
- dull gweithredu integredig sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r ddwy arolygiaeth mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol; a
- y ddwy arolygiaeth yn dangos y rhyngberthynas rhwng addysg gynnar a gofal, sy'n ganolog wrth gyflawni canlyniadau da i blant.

Byddwn yn parhau i adolygu'r cynnydd a wneir gan yr arolygiadau ar y cyd yn ystod 2019-20; gan ddysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, deall yr hyn sydd angen ei wella a gweithredu i ddiwygio ein dull gweithredu at y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi rhagor o hyfforddiant i'n timau arolygu ym mis Medi 2019.

## “Joint Inspections provide a more rounded view of our service” [PLEASE TRANSLATE]

“Rydym yn darparu gofal dydd a chlwb ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o blant rhwng 6 wythnos oed ac oedran dechrau’r ysgol.

Cawsom arolygiad ar y cyd gan AGC ac Estyn yn ddiweddar. Yn ein barn ni, roedd yn haws paratoi a chasglu gwybodaeth ynghyd mewn bocs ar gyfer un ymweliad yn hytrach na dau ymweliad ar wahân, yn enwedig gan fod y ddau sefydliad yn chwilio am wybodaeth a thystiolaeth debyg.

Bu’r ddau arolygydd yn cydweithio’n agos dros y ddau ddiwrnod, gan rannu ac ystyried gwahanol senarios o fewn eu penawdau yn ystod yr arolygiad. Roedd y ddau yn arsylwi mewn ystafelloedd gwahanol felly bu modd iddynt weld mwy o’r feithrinfa a rhannu’r hyn a welwyd wrth iddynt drafod a phennu’r canlyniadau a’r safon. Yr un oedd y broses arolygu o ran arsylwi a gwirio’r gwaith papur a chasglu tystiolaeth. Cafodd adroddiad llafar ar y cyd ei gyflwyno ar y diwedd.

Wrth gael yr un arolygiad mawr hwn dros ddau ddiwrnod, roedd llai o bwysau ar y staff na chael dau arolygiad ar wahân gan ddwy asiantaeth wahanol. Mae’n haws trefnu dyddiadur y feithrinfa o gwmpas un ymweliad arolygu. Yn ogystal, bu modd i ni gael barn ar yr hyn a adroddwyd yn syth, a bu modd i ni weithredu ar unwaith i roi unrhyw argymhellion ar waith. Mae cael dau arolygydd yn golygu bod ganddynt fwy o amser i siarad â’r staff a’r rhieni ar y diwrnod, a all olygu cael barn fwy crwn o’n gwasanaeth.”

*Meithrinfa Bach Day Nursery, Aberystwyth, Ceredigion*



# Adolygiadau cenedlaethol a thematig

## Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) 2017-18

Gan weithio ar y cyd ag AGIC, gwnaethom lunio'r nawfed adroddiad monitro blynyddol ar weithrediadau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru.

### Beth yw ystyr amddifadu o ryddid?

Mae amddifadu o ryddid yn golygu'r canlynol:

- pan fydd rhywun dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus neu lwyr;
- nad yw'n rhydd i adael; a
- nad oes ganddo alluedd i gydsynio i'r trefniadau hyn.

### Beth yw'r Trefniadau Diogelu?

Diben y Trefniadau Diogelu yw grymuso ac amddiffyn unrhyw unigolyn ag anhwylder meddyliol lle mae amheuaeth ynglŷn â'i alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ei ofal pan fydd yn yr ysbyty neu'n byw mewn cartref gofal.

## Ein canfyddiadau

- Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gafwyd gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gyda'r mwyafrif o'r unigolion dan sylw yn fenywod dros 65 oed.
- Ni chafodd tua hanner y ceisiadau safonol am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid na dwy ran o dair o'r ceisiadau brys benderfyniad o fewn yr amserlen statudol ofynnol; mae'r gyfran a asesir o fewn yr amserlen wedi gwella ers y llynedd.
- Yn achos pob cais, y cyfnod cyfartalog rhwng cael ffurflen gais a gwneud penderfyniad oedd 83 diwrnod.

Gallwch ddarllen yr Adroddiad Monitro Blynyddol llawn ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2017-18 ar ein gwefan.



# Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

Trwy gydol 2018 canolbwyntiodd ein tîm arolygu hawdurdod lleol ar ofal

ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Rhwng Mehefin a Hydref 2018, casglwyd tystiolaeth gennym o:

- arolygu gwasanaethau plant chwe awdurdod lleol;
- 22 o hunanwerthusiadau awdurdodau lleol;
- cyfarfodydd herio a gynhaliwyd â'r awdurdodau lleol hynny lle na chynhaliwyd arolygiad; a
- gweithgarwch ymgysylltu â phlant sydd wedi bod mewn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr maeth.

Rhoddodd y rhaglen waith hefyd gyfle i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chanfyddiadau a chasgliadau adolygiadau cenedlaethol cynharach a gynhaliwyd gan AGC a rhanddeiliaid eraill. Gwnaethom ystyried y gwaith sylweddol a wneir mewn perthynas â phlant sydd wedi bod mewn gofal yn cynnwys:

- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar wella canlyniadau i blant a sefydlwyd yn 2016; a
- pwyllgor cyfrifon cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, Tachwedd 2018.

## Adroddiad trosolwg cenedlaethol

Caiff yr adroddiad trosolwg cenedlaethol ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019. Bydd y canfyddiadau allweddol yn adlewyrchu ein prif lwybrau ymholi mewn perthynas â phroffil plant sy'n derbyn gofal, digonolrwydd y lleoliadau, arferion gwaith cymdeithasol, partneriaethau, sefydlogrwydd lleoliadau, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau drwy ddigwyddiadau dysgu a gaiff eu cynllunio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori Gweinidog Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

## Canlyniadau i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru

Cynhaliwyd hefyd adolygiad thematig ategol, wedi'i lywio gan ein gweithgarwch arolygu, o'r canlyniadau i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2019.

Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau dysgu mewn perthynas â'n gwaith ar blant sydd wedi bod mewn gofal a phobl ag anghenion iechyd meddwl yn ystod 2019 er mwyn cefnogi gwelliannau a sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

## Adolygiad o wasanaethau oedolion awdurdodau lleol

Gwnaethom gychwyn ar ein harolygiadau o wasanaethau oedolion awdurdodau lleol, gan ganolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl 65 oed a throsodd. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn ar y cyd ag AGIC.

Mae ein gweithgarwch arolygu ac ymgysylltu wedi canolbwyntio ar gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi. Yn 2018-19, cynhaliwyd tri arolygiad gydag AGIC. Mae gwaith arolygu ac ymgysylltu pellach gyda phobl a gofalwyr wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20.

Cwblhaodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol hunanwerthusiadau yn seiliedig ar y gwaith thematig a geisiodd eu barn am berfformiad yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014. Caiff canlyniadau'r hunanwerthusiad eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r arolygiadau, y wybodaeth sydd ar gael am berfformiad a barn y bobl a ddaw i gysylltiad â'r gwasanaethau. Caiff adroddiad trosolwg cenedlaethol ei gyhoeddi ar ôl i'r rhaglen waith thematig gael ei chwblhau yn 2019-20.

# Cyflawniadau sefydliadol



"Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda diwylliant o welliant parhaus a safonau gwasanaeth o ansawdd da yn greiddiol i ni. Mae'r dyheadau hyn yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd – byddwn yn gweithio'n onest, byddwn yn dangos parch a byddwn yn ofalgar, yn deg ac yn broffesiynol bob amser."

*Cynllun Strategol Arolygiaeth Gofal Cymru, 2017-20*

# Cynllun Strategol 2017-20 AGC

**Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n polisïau, ein prosesau a'n gweithdrefnau.**

Dyma rai o'r prosesau newydd rydym wedi'u cyflwyno eleni sydd yn ein helpu i gryfhau ein trefniadau llywodraethu, gwella ein perfformiad yn barhaus, hyrwyddo cydberthnasau cydweithredol â'n rhanddeiliaid ac ymgorffori newidiadau deddfwriaethol yn ein rhaglenni gwaith.

**Blaenoriaeth Strategol 1: Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.**

- Lansiwyd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein newydd.
- Datblygwyd proses gwynion newydd.
- Lansiwyd gwasanaethau ar-lein newydd i gefnogi proses ailgofrestru gan gynnwys hysbysiadau o dan Ddeddf 2016.

**Blaenoriaeth Strategol 2: Bod yn fedrus, yn alluog ac yn ymatebol.**

- Datblygwyd fframwaith a chanllawiau ar gyfer y cymorth rheoli sydd ar gael i staff AGC.
- Rhaglen iechyd a llesiant yn cynnwys gweithgareddau hyrwyddo.
- Datblygwyd strategaeth gweithlu Cymraeg.

**Blaenoriaeth Strategol 3: Bod yn llais arbenigol i ddylanwadu ar welliant a'i ysgogi.**

- Datblygwyd rhaglen o arolygiadau ar y cyd ag Estyn.
- Adolygwyd y trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth â phartneriaid allweddol a datblygwyd protocol newydd.
- Polisi ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig.

**Blaenoriaeth Strategol 4: Rhoi deddfwriaeth ar waith yn effeithiol.**

- Datblygwyd fframwaith arolygu awdurdodau lleol newydd.
- Cafodd fframwaith arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu ei dreialu.
- Datblygwyd polisi preifatrwydd newydd er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## “Ffordd syml o rannu gwybodaeth â AGC”

“Fel Unigolyn Cyfrifol penodedig ar gyfer y cartrefi, rwyf yn defnyddio AGC Ar-Lein i ddarparu diweddariadau ynglŷn ag unrhyw newidiadau o fewn y sefydliad, megis ein Datganiad o Ddiben a hysbysiadau.

Mae hyn wedi bod yn brofiad cadarnhaol ar y cyfan, ac mae’r broses o gyflwyno gwybodaeth ar gyfer pob hysbysiad wedi’i gosod yn glir gyda chwymplenni rhagosodedig, sy’n golygu bod y broses yn haws. Mae hyn yn eich arwain at y wybodaeth berthnasol ac yn safoni’r broses.

Rydym hefyd wedi defnyddio’r porth ar-lein i ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). At ei gilydd, mae’r system yn welliant mawr o’i chymharu â’r prosesau blaenorol ar gyfer rhoi gwybod i AGC am newidiadau a hysbysiadau, ac mae’n symlach. Mae’n fwy perthnasol o lawer ac yn ffordd syml o rannu gwybodaeth ag AGC.”

*Natalie Fletcher, cyfarwyddwr gwasanaethau gofal o Quality Education with Care Ltd*

# Dod yn sefydliad digidol

Ein prif amcan wrth ddod yn sefydliad digidol yw gwneud ein perthynas â darparwyr mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Gwnaethom gymryd cam enfawr ymlaen eleni gyda’r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu gwasanaethau AGC Ar-lein i ddarparwyr sy’n cofrestru o dan Ddeddf 2016.

### Gwasanaethau ar-lein AGC i ddarparwyr

Yn ogystal â galluogi darparwyr Deddf Safonau Gofal 2000 i ailgofrestru a cheisiadau newydd i gofrestru, sicrhaodd AGC Ar-lein fod Unigolion Cyfrifol (neu eu henwebai) yn gallu defnyddio nifer o nodweddion ychwanegol, fel cyflwyno hysbysiadau gan ddefnyddio’u cyfrif AGC Ar-lein. Mae’r gwasanaeth yn helpu darparwyr i gyflwyno hysbysiadau i ni mewn ffordd ddiogel ac amserol.

Ym mis Ionawr 2019, cafodd y gwasanaeth ei wella ymhellach, gan alluogi darparwyr Deddf 2016 i ddefnyddio AGC Ar-lein i wneud ceisiadau i amrywio amodau eu cofrestriad, er enghraifft ychwanegu neu ddileu gwasanaeth neu Unigolyn Cyfrifol, neu newid nifer y bobl y gall y gwasanaeth ddarparu ar eu cyfer.

### Cofrestru ar-lein i ddarparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae

Gwnaethom gwblhau ein paratoadau i wella ein gwasanaethau ar-lein ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae.

### Ein gwefan

Ym mis Mai 2018, gwnaethom gyflwyno cyfeiriadur gwasanaethau gofal ar ein gwefan, ynghyd â chofrestr newydd o ddarparwyr gwasanaethau. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ychwanegwyd adroddiadau gwarchodwyr plant i’r cyfeiriadur gofal.

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae gwiriad DBS yn cyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n cynnig mesurau diogelwch i gyflogwyr i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant.

O fis Ebrill 2018, gwnaethom newid y ffordd rydym yn gweinyddu gwiriadau DBS a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gost gwiriadau DBS i'r ymgeisydd. Ar gyfer y flwyddyn drosiannol hon yn unig, cynigiodd Llywodraeth Cymru dalu'r tanysgrifiad o £13 ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru'r DBS, gan annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw a chael budd ohono.

Yn ystod yr haf, gwnaethom lansio ein gwasanaeth DBS ar-lein ein hunain, a reolir gan ddarparwr allanol, Vibrant Nation. Gall pob ymgeisydd sy'n gymwys i gael gwiriad DBS, ac na allant gael gwiriad yn rhywle arall, gysylltu â ni i gael gwiriad a byddwn yn eu cyfeirio at Vibrant Nation. Mae'r system yn gyflym ac yn hawdd ei defnyddio.

Er mwyn cydymffurfio â gofynion DBS, mae angen i ni gadarnhau hunaniaeth wyneb i wyneb hefyd. Yn ystod wyth mis cyntaf y gwasanaeth newydd, cynhaliwyd 854 o wiriadau, a chymerodd pob gwiriad 11 diwrnod ar gyfartaledd i'w gwblhau. Manteisiodd 95% o'r ymgeiswyr ar y cynnig pontio i ymuno â Gwasanaeth Diweddaru'r DBS.

## Graddau gwasanaethau gofal plant a chwarae

Rydym wedi bod yn paratoi, ers dros ddwy flynedd bellach, i gyhoeddi graddau yn ein hadroddiadau arolygu gofal plant a chwarae. Yn ystod y cyfnod hwn, nid ydym wedi cyhoeddi graddau ond rydym wedi bod yn rhoi gwybod i ddarparwyr ba raddau y maent wedi'u cyflawni yn ein hadborth llafar ar ddiwedd pob arolygiad. Rydym wedi siarad â gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd am raddau mewn digwyddiadau i randdeiliaid, ac wedi gofyn i'r cyhoedd am eu barn am raddau.

O fis Ebrill 2019, byddwn yn dechrau cyhoeddi graddau ar gyfer pob un o'r themâu arolygu ym mhob un o'n hadroddiadau arolygu. Y gwasanaethau cyntaf i gael eu graddau wedi'u cyhoeddi fydd y rheini a arolygwyd ar y cyd ag Estyn o fis Ionawr, gyda gwasanaethau eraill yn dilyn ym mis Ebrill.

Gyda mwy na 4,000 o wasanaethau i'w harolygu, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i'r graddau gael eu cyhoeddi ar gyfer pob gwasanaeth. Yn y cyfamser, mae croeso i ddarparwyr hysbysebu'r 'graddau mud' y maent wedi'u cael gan AGC ers 2016.

Pennir statws yn erbyn pob un o'n themâu arolygu. Nid ydym yn rhoi statws cyffredinol. Byddai'n well gennym pe bai darparwyr yn canolbwyntio ar y meysydd penodol i'w gwella yn hytrach na rhoi pwyslais ar statws cyffredinol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r pedwar statws posibl a disgrifydd ar gyfer pob un.

| Gradd | Disgrifydd |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Ni fydd y graddau ar eu pen eu hunain yn ddigon i sicrhau diogelwch gwasanaethau na gwella ansawdd. Ynghyd â'r graddau, mae angen ymdrech barhaus a chydgysylltiedig gan bawb sy'n ymwneud â'r maes, gan gynnwys llunwyr polisïau, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal plant a chwarae yn datblygu ac yn gwella.


## Y cynnig gofal plant

Mae'r broses o roi'r cynnig gofal plant ar waith wedi dechrau cyflymu. Mae'r fenter yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair neu phedair blwydd oed am 48 wythnos o'r flwyddyn. Ni all gwasanaeth ddarparu'r cynnig heb fod wedi'i gofrestru ag AGC.

Bydd datblygiad ein gwasanaethau ar-lein yn helpu'r gwaith o weithredu'r cynnig drwy ei gwneud yn haws i ddarparwyr newydd ddechrau, neu i ddarparwyr presennol ailffocysu'r gwasanaeth.
Ar yr un pryd byddwn yn parhau i ddisgwyl bod darparwyr yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol iddynt eu cyrraedd pe baent am gofrestru ag AGC.

# Cydymffurfiaeth

Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Gwnaethom gynnal 2,499 o arolygiadau yn ystod y flwyddyn. O'r gwasanaethau a arolygwyd, canfuwyd nad oedd 1.5% yn cydymffurfio â'r gyfraith fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2019.





## Pryderon a godwyd

Mae pryderon yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth i ni ac maent yn aml yn cael eu codi gan y bobl sy'n defnyddio ac yn dibynnu ar y gwasanaethau gofal a reoleiddir gennym, yn ogystal â'u perthnasau, ymwelwyr, staff gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau neu gymdogion.

Ni allwn ymchwilio i gwynion unigol na datrys anghytundebau rhwng pobl a'u darparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn croesawu gwybodaeth a phryderon am y gwasanaethau a reoleiddir gennym.

Caiff pob pryder ei adolygu gan arolygydd. Gall hyn arwain at arolygiad cynnar neu lywio'r arolygiad nesaf, neu gallwn wneud atgyfeiriad at yr awdurdod lleol fel y brif asiantaeth ar gyfer diogelu. Pan fydd arolygiad yn digwydd caiff y materion a godwyd eu hadlewyrchu yn yr adroddiad arolygu fel arfer.




Ffynhonnell: system rheoli data AGC

# Sut i godi pryder

Rydym yn croesawu'ch pryderon a'ch sylwadau am unrhyw wasanaeth a reoleiddir gennym. Gallwch godi pryder mewn sawl ffordd:

Ein ffonio: 0300 7900 126

Anfon e-bost aton ni: AGC@llyw.cymru

Ysgrifennu aton ni:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

# Edrych i'r dyfodol



# Gofal plant a chwarae

## AGC Ar-lein i'r sector gofal plant a chwarae

Ar ôl rhoi gwasanaethau ar-lein ar waith yn llwyddiannus i ddarparwyr gwasanaethau oedolion a plant, dechreuwyd ar y gwaith o gynnig manteision llawn AGC Ar-lein i ddarparwyr gofal plant a chwarae.

Mewn partneriaeth â Cwlwm (y pum sefydliad sy'n cefnogi gwasanaethau gofal plant yng Nghymru) rydym yn datblygu ein cynlluniau, gan gynnwys ffurflen gais Ar-lein, i'w profi gyda darparwyr. Byddwn hefyd yn trafod ac yn adolygu'r ffurflenni cais arfaethedig ar gyfer gwarchodwyr plant a gwasanaethau gofal dydd. Rydym yn hyderus y bydd y system yn fuddiol i'r sector ac rydym am greu consensws cadarnhaol am y datblygiad cyffrous hwn.

Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd ein ffocws digidol ar gefnogi darparwyr gwasanathau oedolion a phlant i fanteisio i'r eithaf ar wasanaethau AGC Ar-lein, ac adeiladu gwasanaethau ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae, a gaiff eu lansio yn ddiweddarach yn 2019.

Yn 2020, byddwn yn cyflwyno cofrestru a hysbysiadau ar-lein ar gyfer gofal plant a chwarae, gan ei gwneud yn haws i ddarparwyr newydd ymuno â'r farchnad ac i'r gwasanaethau presennol ein hysbysu am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau. Yn ogystal, drwy symleiddio'r broses gofrestru ac amrywio, byddwn yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr presennol a darparwyr newydd gynnig lleoedd i blant o dan 'Gynnig Gofal Plant' Llywodraeth Cymru.

## Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth

Yn gynnar yn 2020, byddwn yn gofyn i ddarparwyr gofal plant a chwarae ddefnyddio eu cyfrifon ar-lein i gyflwyno Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i gasglu a diweddaru'r wybodaeth sydd gennym am wasanaethau gofal plant a chwarae. Yn ogystal, gofynnir i ddarparwyr gyflwyno adolygiad o ansawdd y gofal, yn disgrifio eu hasesiad eu hunain o ansawdd y gofal a ddarperir ac yn egluro'r ffordd y maent yn monitro eu perfformiad eu hunain.

# Ailgofrestru gweddill y gwasanaethau oedolion a phlant

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Yn ystod 2019-20, byddwn yn cwblhau'r broses o roi Deddf 2016 ar waith drwy ailgofrestru gweddill y gwasanaethau oedolion a phlant o dan Ddeddf 2016.

Byddwn yn ymestyn gwasanaethau ar-lein ymhellach er mwyn galluogi darparwyr gwasanaeth i gyflwyno ffurflen flynyddol. Bydd ffurflenni blynyddol yn darparu gwybodaeth gymaradwy am wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth am ffioedd, trosiant staff, nifer y cwynion a gafwyd, manylion hyfforddiant staff a gwerthusiad o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

## Fframwaith arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion

Y flwyddyn nesaf, caiff fframwaith newydd ei gyflwyno ar gyfer arolygu cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref, yn ogystal â dull newydd o ysgrifennu ein hadroddiadau. Bydd hyn yn cynnig dull arolygu clir sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan fod y fframwaith yn gyson â'r ddeddfwriaeth (Deddfau 2014 a 2016).

Yn ogystal â'r fframweithiau a'r adroddiadau newydd, rydym wedi bod yn datblygu dull o bennu graddau i ddarparwyr gwasanaeth. Bydd gwerthusiad ffurfiol yn cael ei gynnal, gyda'r nod o gyhoeddi graddau yn 2021.

# Darparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel

### Gwasanaeth un pwynt cyswllt

Er mwyn cynnig ffordd fwy effeithlon a haws o gysylltu â ni, byddwn yn cyflwyno tîm gwasanaeth un pwynt cyswllt o'r enw Cyswllt AGC. Bydd y tîm wedi'i leoli yn ein swyddfa yng Nghyffordd Llandudno a bydd yn ateb yr holl alwadau ac ymholiadau a ddaw i'r sefydliad. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu dull gweithredu cyson a safonol.

# Adolygiadau thematig ac adroddiadau cenedlaethol

Yn ystod 2019, byddwn yn cyhoeddi dau adolygiad thematig mawr yn ymwneud â phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ledled Cymru:

- Adroddiad trosolwg cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal;
- Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal plant yng Nghymru.

Adroddiad trosolwg cenedlaethol ar hyrwyddo annibyniaeth ac atal i bobl hŷn.

### Adolygiad gofal dementia

Yn ystod 2019-20, byddwn yn cynnal adolygiad thematig o gartrefi gofal ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, sy'n ddarn o waith hanfodol er mwyn deall y mathau o wasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru, a'u hansawdd.

### Arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant

Gan weithio gyda phartneriaid Arolygu Cymru, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, byddwn yn treialu dull integredig o arolygu trefniadau amddiffyn plant. Os bydd yn llwyddiannus, byddwn yn cynnal arolygiadau pellach yn 2020-21.

### Arolygu awdurdodau lleol: plant anabl

Bydd ein harolygiadau o wasanaethau plant awdurdodau lleol yn 2019-20 yn canolbwyntio ar brofiadau plant anabl a'u teuluoedd.

# Atodiad

## Ein gweithlu

### Ein staff

283 o staff ledled Cymru.

### Ein swyddfeydd

Caerfyrddin
Cyffordd Llandudno
Merthyr Tudful

### Ein tîm uwch-reolwyr

Prif Arolygydd
Dirprwy Brif Arolygydd x 2
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Pennaeth Cofrestru a Gorfodi
Pennaeth Gwasanaethau Cymorth
Pennaeth y Tîm Newid (Digidol)

**Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym yn gweithio tuag at fod yn sefydliad dwyieithog enghreifftiol.** Mae hyn yn cynnwys darparu arolygwyr Cymraeg i ymgysylltu â phobl sydd wedi nodi mai'r Gymraeg yw eu hiaith ddewisol. Rydym hefyd wedi rhoi strategaeth gweithlu Cymraeg ar waith i gynorthwyo AGC i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg a darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog i bobl Cymru.

Mae gennym grŵp hyrwyddwyr y Gymraeg, i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a dwyieithrwydd o fewn AGC. Nod y grŵp yw:

- nodi a rhannu arfer da;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- cefnogi'r gweithlu i wella sgiliau Cymraeg; a
- cynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru yn y sefydliad.

## Cyllideb

Dyrannwyd cyllideb o **£13,632,000** i AGC gyfer 2018-19.

Cafodd AGC hefyd:

- Cyllid o £ 1.5 miliwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i weithredu Deddf 2016.
- Cyllid o £ 352,170 gan yr Is-adran Polisi Gofal Plant a Chwarae i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu datganiadau hunanasesu gwasanaeth ar-lein ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae. Ac hefyd i weinyddu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a elwir yn Gynllun Nani.


Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd £13,133,696 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £2,350,474 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu yn cyfrif am 63% o gostau staff.

## Yr hyn y gwnaethom fuddsoddi ynddo

- **TGCh** – Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein darpariaeth TGCh yn ystod 2018-19. Ym mis Mai 2018, cefnogodd ein system ddigidol y broses o newid i gyfeiriadur gwasanaethau gofal wedi'i ddiweddaru ar ein gwefan, gan gynnwys cofrestr newydd o ddarparwyr gwasanaeth.
- **AGC Ar-lein** – Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'n harlwy digidol. Rydym bellach yn gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar-lein i ddarparwyr sy'n cofrestru o dan Ddeddf 2016. Mae'r ystod gynyddol hon o wasanaethau AGC Ar-lein i ddarparwyr yn cynnwys y canlynol galluogi darparwyr Deddf Safonau Gofal 2000 i ailgofrestru a galluogi ceisiadau newydd i gofrestru; ceisiadau i amrywio amodau cofrestru; a chyflwyno hysbysiadau gan ddefnyddio cyfrif AGC Ar-lein darparwyr.

## Dadansoddiad o wariant*

* Dadansoddiad o wariant: Mae 'Arall' yn cyfuno nifer o gostau llai, er enghraifft hyfforddiant staff a chyfathrebu.



0300 7900 126

AGC@llyw.cymru

arolygiaethgofal.cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**